



'Newid Diwylliant: Sut mae Artistiaid yng Nghymru yn Ymateb i Gynaliadwyedd yng Nghymru'

gan

Paul Allen, Emily Hinshelwood, Fern Smith, Rhodri Thomas a Sarah Woods

Mae 'Newid Diwylliant: Sut mae Artistiaid yn Ymateb i Gynaliadwyedd yng Nghymru' yn adroddiad ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2014. Caiff ei lansio'n swyddogol ar 12 Tachwedd 2014 yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd, Cymru.

Mae'r adroddiad ar gael i'w lawr lwytho yn [Saesneg](#) ac yn [Gymraeg](#).

Mae 'Newid Diwylliant' yn rhoi trosolwg o'r nifer o fentrau celfyddydol cynaliadwy arloesol sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dyst i'r hyn sydd eisoes yn digwydd. Mae hefyd wedi'i fwriadu fel datganiad o fwriad a galwad i weithredu. Mae'n amlygu pŵer y celfyddydau i gyfrannu tuag at, neu hyd yn oed i gymryd rôl arweiniol yn y broses o bontio i gymdeithas sy'n cynnal bywyd. Y gobaith ydy y bydd yr adroddiad hwn yn cyfrannu tuag at bolisi celfyddydau yn y dyfodol oddi mewn i gyd-destun Mesur Lles Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sut y mae nifer cynyddol o artistiaid yn arwain newid mewn gwerthoedd a chysylltiadau o amgylch mynediad i adnoddau yn y dyfodol.

Mae'n cynnwys argymhellion i Gyngor Celfyddydau Cymru ynghylch polisi celfyddydau yn y dyfodol o ran cefnogi datblygiad arfer mor arloesol. Fe'i cefnogir gan astudiaethau achos a chyfweliadau gyda nifer o artistiaid a chyrrff ac mae'n adeiladu ar ganlyniadau arolwg sector gyfan a gynhaliwyd yn y Gwanwyn 2014. Mae'r atodiadau i'r adroddiad yn manylu ar ddata'r arolwg yn ogystal ag enwi nifer o brosiectau, llyfrau ffurfiannol, erthyglau, adnoddau defnyddiol, cysylltiadau a chyrrff.

Er bod yr ymchwil yn canolbwyntio ar weithgaredd yng Nghymru, mae'r ymchwil wedi'i fframio o fewn cyd-destun y newidiadau a'r ysbrydoliaethau ehangach y mae artistiaid Cymreig yn eu tynnu oddi wrth y rhai y tu allan – yn cynnwys – including Artsadmin, Julies Bicycle, Tipping Point, Platform, Creative Carbon Scotland, People United, Encounters a Case for Optimism.

Cyflawnwyd y gwaith gan dîm o artistiaid ac arbenigwyr mewn

cynaliadwyedd, sef: Fern Smith – actor a chyfarwyddwraig a chyd-sylfaenydd Theatr Volcano, Sarah Woods – awdur a pherfformwraig, Emily Hinshelwood – bardd a pherfformwraig, Paul Allen – Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau Canolfan y Dechnoleg Amgen a Rhodri Hugh Thomas – actor, awdur ac arbenigwr datblygu cynaliadwy gyda Cynnal Cymru-Sustain Wales.

“Fe ymgeisiodd Eginiaid am y tender nid fel ymgynghorwyr ond fel artistiaid, a bu’n llwyddiannus. Anelwyd at y broses a’r canlyniad fel cydweithrediad creadigol rhwng artistiaid a’r rhai sy’n gweithio ym maes cynaliadwyedd gyda’r bwriad o gynnwys cymaint o leisiau â phosibl. Rydym yn gweld yr adroddiad yma fel rhywbeth sydd yn adeiladu ar, ac yn cyfrannu tuag at naratif cynyddol sydd fel pe bai’n ennill momentwm a hyder ar draws Cymru, y DU a thu hwnt. Rydym yn gobeithio y bydd ‘Newid Diwylliant’ yn ddogfen waith. Rydym yn gobeithio y bydd yn anogaeth i eraill i ymuno â’r sgwrs ac i gefnogi’r rhai sydd eisoes yn gwneud y gwaith yma.”

**Fern Smith, cynhyrchydd creadigol
Eginiaid**

“Mae hwn yn adroddiad pwysig ac mae’r materion y mae’n eu codi yn werth eu trafod. Rydym yn ymwybodol iawn o’r angen i gyrff fel ni ddangos arweiniad ac ymrwymiad. Mae cymorth ac anogaeth y sector celfyddydau i barhau gyda’r gwaith ardderchog sydd eisoes yn digwydd yn hanfodol. Mae’r sector celfyddydau yng Nghymru eisoes wedi arwain ar hyn ac mae’r adroddiad yma yn ceisio dogfennu, cofnodi a rhannu hynny.”

**Sian Tomos, Cyngor Celfyddydau
Cymru**

“Mae Cymru – diwylliant creadigol lle mae yna ddigonedd o artistiaid – yn un o ddim ond tair democratiaeth sydd yn fodlon dal eu hunain yn gyfreithiol atebol am hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd. Dydy hi ddim yn syndod felly bod yr adroddiad blaengar yma yn dod o Gymru. Heb artistiaid, sut allwn ni fyth deimlo ein ffordd yn llawn i gymuned gynaliadwy neu i greu cysylltiadau sydd yn ein cynnal trwy amseroedd anodd?”

Margaret Wheatley, actifydd ac awdur

Prosiect cydweithredol [Volcano](#) ydy Eginiaid. Mae wedi ei ddylunio i ddatblygu seilwaith celfyddydau carbon isel, effeithlon o ran adnoddau a galluogi’r celfyddydau i fod yn grochan ar gyfer syniadau a meddwl newydd. Y partneriaid craidd ar Newid Diwylliant ydy [Volcano](#), [Cynnal Cymru-Sustain Wales](#), [Awel Aman Tawe](#) a [Chanolfan Technoleg Amgen](#)

GWELER YR ADRODDIAD YMA:

<http://www.emergence-uk.org/wp-content/uploads/culture-shift-report.pdf>

<http://www.emergence-uk.org/wp-content/uploads/CULTURE-SHIFT-Report-Welsh.pdf>

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda Fern Smith
fern@volcanotheatre.co.uk

Eginiad [Gwefan](#) [Facebook](#) **Trydar:** @emergenceuk #cultureshift